

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Santes Fair yn ysgol ofalgar, sy'n annog disgyblion i fod yn hapus a mwynhau'r ysgol, tra'n dysgu mewn amgylchedd cynnes a chynhwysol. Mae disgyblion yn barod iawn i gymryd rhan yn y tasgau a ddarperir ar eu cyfer ac yn defnyddio strategaethau ac adnoddau effeithiol i ddysgu'n gynhyrchiol. Mae hyn oherwydd y perthnasoedd gweithio pwrpasol sy'n bodoli gyda'r rhan fwyaf o'u hathrawon ac aelodau staff eraill.



Pan mae'r dysgu yn hynod lwyddiannus, mae'r addysgu yn ddifyr, yn fywiog, yn gadarnhaol ac mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw ansawdd yr addysgu a chynllunio'r cwricwlwm yn effeithiol ym mhob dosbarth. Yn ychwanegol, mae effaith adborth athrawon ar y camau nesaf yn nysgu disgyblion yn anghyson ar draws yr ysgol.



Mae'r rhan fwyaf o staff yn darparu cymorth, gofal ac arweiniad cryf i ddisgyblion ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae hyn yn annog disgyblion i ganolbwyntio'n gyfrifol ar eu dysgu a'u lles unigol. Mae ymddygiad disgyblion yn ddi-fai ac maent wedi eu cymell i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a medrus. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau siarad, gwrando, darllen a medrau creadigol da. Hefyd, maent yn datblygu medrau ysgrifennu addas, ac mae eu medrau digidol a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn foddhaol. Mae staff yn defnyddio ardaloedd o dir helaeth yr ysgol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth o ran profiadau dysgu yn yr awyr agored ar gyfer disgyblion iau wedi'i datblygu'n ddigonol.



Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol, a gofal a lles y disgyblion sydd wrth wraidd ei weledigaeth. Mae wedi'i gymell i lwyddo er budd y disgyblion a chymuned yr ysgol. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth, y rhan fwyaf o'r staff a'r llywodraethwyr yn rhannu ei athroniaeth anogol. Eu nod yw sicrhau bod yr ysgol yn gymuned ddysgu gadarnhaol sy'n hyrwyddo cyfleoedd buddiol ar gyfer disgyblion.

Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn drylwyr, gan ddefnyddio prosesau hunanwerthuso cynlluniedig, sy'n arwain at gynlluniau datblygu effeithiol. Mae'r arferion monitro hyn yn arwain at gyfleoedd hyfforddiant proffesiynol i staff ddatblygu eu medrau trwy gyrsiau dysgu proffesiynol pwrpasol.

# Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â phroblem diogelwch ar y safle, a nodwyd adeg yr arolygiad

A2 Sicrhau bod ansawdd yr addysgu a chynllunio profiadau dysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol

A3 Cyd-gynllunio i wella medrau rhifedd a digidol disgyblion

A4 Sicrhau bod ansawdd adborth athrawon yn targedu'r camau nesaf yn nysgu disgyblion yn effeithiol

A5 Gwella ansawdd a darpariaeth profiadau dysgu yn yr awyr agored ar gyfer disgyblion iau

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn cydweithio â'r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol. Dyma'r gweithgarwch dilynol ysgafnaf, gan nad yw'n statudol.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Catholig |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 143 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 114 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 22 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.3%) | 18.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 22.2%) | 23.7% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/01/2015 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 07/02/2014 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 28/11/2022 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/02/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy’n cael eu dangos yn rhai o’r ysgol sy’n destun yr adroddiad hwn.